

❖ GANWYD IESU

Gweddï Agoriadol:

Diolch i ti, ein Tad, am y cyfle newydd hwn i gael ein hatgoffa o'r newydd am y cariad dwyfol yn y rhodd fwyaf i'r byd yn nyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist. Diolch am gael cyfle i weld y cariad hwnnw mewn preseb a chofio ei fod wedi dod i fod yn gariad yn hongian ar groes. Wrth inni ddod at ein gilydd i dathlu'r wyl, erfyniwn am dy fendith ar ein hoedfa yn enw Iesu Grist, Amen.

Darllen: Luc 2:8–20**Neges:**

Pan fyddwn yn deffro ac yn codi yn y bore, ni fyddwn yn gwybod beth fydd o'n blaenau yn ystod y dydd, gan fod yna bethau cwbl annisgwyl yn gallu digwydd a fydd yn newid ein cynlluniau i gyd. Dyma brofiad nifer o bobl yn hanes y Nadolig cyntaf, e.e. Mair, a oedd wrthi'n brysur gyda'i dyletswyddau dyddiol; ni feddylodd byth y byddai angel yn ymweld â hi. Ni fyddai Mair erioed wedi disgwyl clywed y fath newyddion ag a dderbyniodd gan yr angel, sef ei bod hi wedi'i dewis i fod yn fam i Fab Duw, Gwaredwr y byd. Ni fyddai chwaith wedi disgwyl i'r peth ddigwydd mewn ffordd mor rhyfeddol.

A beth am Joseff wedyn? Ni fyddai ef wedi disgwyl gweld ei ddyweddi'n feichiog, ac yn sicr ni fyddai wedi disgwyl esboniad o'r cyfan gan angel. Prin fod Mair a Joseff wedi disgwyl i Fab Duw gael ei eni mewn stabl. Ni allwn anghofio'r bugeiliaid yn gwylio eu praidd liw nos. Rhywsut, ni allwn gredu y byddent yn disgwyl gweld angylion gyda'r nos ar y meysydd. Dyna'n union a ddigwyddodd un noson, angel gyda chôr o angylion yn cyhoeddi bod y Meseia wedi ei eni. Ni fyddai'r bugeiliaid byth wedi disgwyl y byddent hwy, y noson honno, yn syllu ar Waredwr y byd mewn gwely o wair ac yn dweud wrth eraill amdano.

Wrth feddwl am stori'r Nadolig cyntaf, sylweddolwn mor allweddol oedd gweinidogaeth yr angylion i esbonio'n union beth a ddigwyddodd a pham, fel bod pobl yr adeg honno ac ar hyd y canrifoedd yn gallu deall pam fod Iesu Grist wedi dyfod i'r byd.

Gweddï:

O Dduw ein Tad, diolchwn i ti am y cyfle newydd hwn i gael ein hatgoffa o ryfeddod y Nadolig cyntaf ac am gael sylweddoli mor allweddol i'r cyfan oedd gweinidogaeth yr angylion. Ni fyddai Mair, na Joseff, na'r bugeiliaid yn gwybod beth oedd ymgawdoliad, nac ychwaith ei bwrpas, oni bai dy fod ti wedi anfon angylion i esbonio'r cyfan. Ni fyddai Mair wedi gallu deall sut y byddai'n beichiogi a hithau'n forwyn, a byddai Joseff yn sicr o feddwl bod Mair wedi bod yn anffyddlon iddo oni bai am esboniad yr angel. Ni fyddai'r bugeiliaid wedi clywed bod ceidwad wedi ei eni ac yn gorwedd ar wely o wair oni bai am ymddangosiad yr angel a'r côr nefolaidd. O Arglwydd ein Duw, oni bai am ddatguddiad yr angylion o wirionedd y Nadolig cyntaf hwnnw, byddai ei ystyr yn parhau yn ddirgelwch i ni heddiw. Gwyddom, ein Tad, na wnaiff y byd ganiatáu i ni anghofio'r Nadolig fel cyfnod o wyliau a dathlu, ond erfyniwn arnat i'n cynorthwyo ni fel eglwys i gyhoeddi'r newyddion da am eni Iesu Grist, fel bod pobl heddiw yn gallu deall a llawenhau yng ngwir ystyr y Nadolig.

Daeth eto wyl y geni -
 ond holl rialtwch byd
 sy'n boddi sain yr engyl
 a drysu ffordd y crud;
 na foed ein clustiau'n fyddar
 i gri'r bachgennyn mad:
 O Dduw, rho olwg newydd
 ar wyrth yr ymwacâd. Amen.

Darllen: Mathew 1:18–25**Neges:**

Un o'r pethau cyntaf a wna rhieni yw dewis enw i'w plentyn. Mae rhai yn dewis enw am ei fod yn enw teuluol neu am ei fod yr un enw â thaid neu nain. I eraill, ystyr yr enw sydd yn bwysig. Gwyddom am rai sydd wedi enwi eu plant ar ôl tîm pêl-droed cyfan neu ar ôl arwr mawr neu rywun enwog. Mae dewis enw

yn gallu achosi tipyn o benbleth. Ni fu'n rhaid i Mair a Joseff bendroni dros enw i'w plentyn cyntaf, gan fod enw wedi ei ddewis iddo eisoes. Wrth sylwi ar fersiwn Mathew a Luc o stori'r Geni, gwelwn i'r un neges gael ei rhoi i Joseff a Mair, sef eu bod i alw'r plentyn yn Iesu, fel y dywedodd yr angel wrth Joseff, 'ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau'.

Wrth ddarllen y Beibl gwelwn fod nifer helaeth o enwau eraill i Iesu, megis 'Oen Duw', 'Meseia', 'Goleuni'r Byd', 'Bara'r Bywyd', 'Atgyfodiad a Bywyd', 'Bugail Da', 'Gwir Winwydden', 'Ffordd', 'Gwirionedd a Bywyd', 'Drws y Defaid', 'Mab Duw' a'r 'Eneinig'. Yn ddi-os y pwysicaf yw 'Iesu', oherwydd efe a wared ei bobl oddi wrth eu pechodau.

Mae'r Nadolig mor wahanol i'r Cristion, oherwydd ei fod yn dathlu dyfodiad ei Waredwr i'r byd yn yr ymwybyddiaeth ei fod wedi dod i farw drosom ar y groes. Y ddau beth pwysig yng ngeiriau'r angel yw pwy yw Iesu Grist a'r hyn y mae am ei wneud. Yn ei emyn mawr, mae Dafydd Jones yn dweud wrthym pwy yw Iesu Grist, sef y Meseia yr oedd Moses a'r proffwydi wedi sôn amdano cyn ei ddod. Yna yn yr ail bennill, mae'n dweud wrthym pam ei fod wedi dod:

Hwn yw'r Oen, ar ben Calfaria
aeth i'r lladdfa yn ein lle,
swm ein dyled fawr a dalodd
ac fe groesodd filiau'r ne';
trwy ei waed, inni caed
bythol heddwch a rhyddhad.

Fel y dywed Pedr, 'Canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi ymhlith dynion, trwy yr hwn y mae'n rhaid i ni fod yn gadwedig.'

Gwedd:

Arglwydd ein Duw, diolch i ti am enw Iesu, yr enw goruwch pob enw. Yn ei enw ef y plygai pob glin o'r nefolion a'r daearolion a'r tanddaearolion bethau ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd, er gogoniant Duw Dad. Dyro inni y gallu i ganu gyda'r Pêr Ganiedydd:

Ymgrymed pawb i lawr
i enw'r addfwyn Oen,
yr enw mwyaf mawr
erioed a glywyd sôn:
y clod, y mawl, y parch a'r bri
fo byth i enw'n Harglwydd ni.

O Dad, mae enw Iesu i ninnau dy blant yn amhrisiadwy; yn wir, nid oes enw gwell na Iesu, oherwydd:

I wael bechadur dan ei bwn
mae cymorth yn yr enw hwn.

Diolchwn iti, ein Tad, am enedigaeth yr Arglwydd Iesu Grist yn Waredwr y byd, ond hyd yn oed pe bai Iesu wedi ei eni fil o weithiau ym Methlehem ond heb ei eni ynom ni, byddem ar goll o hyd. Diolchwn am y rhai sy'n gallu dweud:

Enw'r Iesu sydd yn werthfawr,
ynddo mae rhyw drysor im;
enw'r Iesu yw fy mywyd,
yn ei enw mae fy ngrym:
yn ei enw mi anturiaf
trwy bob rhwystrau maith ymlaen;
yn ei enw mae fy noddfa,
am ei enw bydd fy nghân.

Diolch am y gwerthfawr drysor yn Iesu Grist, ac i'w enw ef y byddo'r clod, y gogoniant, yr anrhydedd a'r mawl. Amen.

Y Fendith:

Wrth inni fynd i'n gwahanol ffyrdd, boed inni hefyd fynd yr un ffordd, sef ffordd Iesu Grist, yr hwn yw'r Ffordd, y Gwirionedd a'r Bywyd. Amen.